Astudiaethau Achos

1. Achos 1 - Dorset

1.1 Yn 1993 penderfynwyd uno 4 ysgol gynradd lle'r oedd eu dyfodol yn ansicr. Roedd yr ysgolion mewn 4 pentref ac fe'u cyfunwyd i fod yn un ysgol Eglwys Lloegr o'r enw Y Dunbury. Daeth yr ysgol o dan reolaeth un prifathro, gydag un Corff Llywodraethu, gan olygu bod:

- Pob pentref yn cadw ysgol. Roedd hon yn ffactor bwysig i'r cymunedau
- Mae'r plant yn cael addysg well, fwy cyfoethog oherwydd gwelliannau'r cwricwlwm.

1.2 Sut mae'n gweithio:

- Pob ysgol gyda chyfleusterau fideo cynadleddau ac e-bost ac yn eu defnyddio i gynnal perthynas gyda'i gilydd ac i rannu syniadau, gwaith ac i gadw mewn cysylltiad.
- Plant yn mynd i ysgol yn eu pentrefi eu hunain ond hefyd yn teithio yn rheolaidd i'r ysgolion eraill er mwyn chwarae ac astudio. Mae neuadd chwaraeon mawr yn ysgol Winterborne Whitechurch lle gall yr holl ddisgyblion ei defnyddio.
- Mae ysgol Dunbury yn ysgol sydd wedi ei rheoli yn wirfoddol ond mae'r eglwys wedi ei chynrychioli ar y corff llywodraethu. Mae'r staff, plant, llywodraethwyr a rhieni yn gweithio gyda'i gilydd i:
  - Gynllunio'r cwricwlwm
  - Creu polisïau i gynnal darpariaeth hafal ym mhob pentref
  - Codi arian i gynnal yr ysgol

1.3 Mae'r Prifathro a swyddfa'r ysgol wedi eu lleoli yn Winterborne Whitechurch ond mae'r prifathro yn gweithio ym mhob un o'r ysgolion, un diwrnod yr wythnos. Tra bod pob ysgol yn wahanol ac unigryw, maent yn gweithio yn galed i sicrhau fod y disgyblion yn cael yr un cyfleon:

- Pob ysgol gyda dau ddosbarth, un ar gyfer derbyn a chyfnod allweddol 1 ac un arall ar gyfer cyfnod allweddol 2.
- Rhai o'r ysgolion hefyd yn cynnal cyfarfodydd grŵp rhiant a phlentyn ar wahân sydd yn cryfhau'r cyswllt gyda'r gymuned.
- Pob ysgol gydag Arweinydd Safle sydd yn gyfrifol am reolaeth ddyddiol staff a phlant o fewn yr ysgolion unigol.

1.4 Yn ôl y Prifathro nid oes amheuaeth fod y budd addysgol a chwricwlaidd yn gwneud y costau ychwanegol yn werth chweil. Un o gryfderau'r ysgol yw ei maint ynghyd â'r canlynol:

- Athrawon yn cael eu penodi i ysgol Dunbury a ddim i'r ysgolion unigol.
- Mae tîm mawr o staff sydd yn gweithio yn agos â'i gilydd sy'n dod â budd cymdeithasol a phroffesiynol.
- Mae'r athrawon gyda chyfrifoldeb ysgol eang mewn un maes cwricwlaidd ac yn dirprwyo mewn un arall.
- Mae'n bosib cynllunio cwricwlwm mwy heriol sydd yn darparu ar gyfer anghenion y mwyaf galluog a'r mwyaf anghenus.
- Mae'r grŵp cyfoed yn fwy ac yn helpu disgyblion i ddod dros broblemau cymdeithasol.

1.5 Mae cynnal nifer o safleoedd yn golygu sawl sialens

- Costus i gynnal sawl adeilad, yn enwedig gan fod nifer yn rhai oes Fictoria.
- Mae'r rhaid i'r prifathro fod yn andros o drefnus o flaen llaw a bod yn barod i ddelio gyda phroblemau logistaidd.
- Un gyllideb sydd yno, ond wedi ei threfnu i gost 4 ysgol gan yr awdurdod lleol.
- Natur yr ysgol yn golygu cynnydd mewn staffio a chludiant: mae cyflog y prifathro yn uwch ac mae pob arweinydd safle yn derbyn 2 bwynt cyflog ychwanegol.

2. Achos 2 – Llanbedr

2.1 Mae ffederasiwn Coedmor wedi ei leoli ar ymylon Llanbedr ac yn cynnwys 3 ysgol:

- Ysgol Coedmor - cyfnod allweddol 1 ac 2 gyda 88 o blant a meithrinfa annibynnol
- Ysgol Ffarmers - cyfnod allweddol 2 - 15 o ddisgyblion ac ail feithrinfa annibynnol ar y safle (tua 6 milltir i ffwrdd o Goedmor ac 1 milltir i ffwrdd o Llanycrwy)
- Ysgol Llanyrcwys - Cyfnod Allweddol 1 - 14 o ddisgyblion.

2.2 Y prif reswm dros ffederaleiddio oedd bygythiad cau Ysgol Ffarmers ac Llanyrcwys, oherwydd gostyngiad mewn niferoedd.

2.3 Fe edrychodd yr Awdurdod Lleol ar ffederaleiddio yn ôl yn 1998 ond oherwydd gwrthwynebiad cryf gan rieni, penderfynwyd peidio â symud ymlaen gyda hyn. Yn 1999 penderfynodd yr Awdurdod symud ymlaen a ffederaleiddio'r ddwy Ysgol a hynny yn erbyn teimladau rhieni.

2.4 Roedd corff llywodraethu ar y cyd eisoes yn bodoli gan fod yr ysgolion yn rhan o glwstwr anffurfiol. Fe fygythiodd nifer o rieni dynnu eu plant allan o'r ysgolion. Yn sgil hynny trefnwyd nifer o gyfarfodydd gyda rhieni, lle'r oedd swyddogion o'r awdurdod lleol a llywodraethwyr yn bresennol. Nid oedd y cyfarfod cyntaf yn llwyddiannus iawn:

- Rhieni o'r Ysgol fwyaf ofn y byddai'r Ysgol yn sybsideiddio y ddwy Ysgol lai a phlant yn dioddef
- Rhieni yn teimlo fod gan yr awdurdod agenda gudd i gau un o'r ysgolion
- Byddai plant yn gorfod symud ar gyfer gwersi (nid dyma oedd yr achos, gan mai dim ond ar gyfer chwaraeon, cerdd ac ymweliadau y byddai plant yn symud)
- Rhieni yn bryderus y byddent yn gorfod ariannu'r costau teithio ychwanegol i symud plant o safle i safle
- Brodyr a chwiorydd mewn ysgolion gwahanol
- Gwisg Ysgol a logo - yn cael ei ddatrys gan y disgyblion

2.5 Cafwyd cyfarfod arall gyda rhieni lle rhannwyd y wybodaeth ganlynol gyda hwy:

- Manylion o'r newidiadau arfaethedig - camau allweddol ar draws y safleoedd
- Manylion maint dosbarth
- Manteision o safbwynt adnoddau
- Eglurhad o sut byddai arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio - byddai staff CA2 yn dysgu pynciau eu hunain a theithio i Ysgol arall dros ginio.
- Trefniadau ar gyfer cludiant - chwaraeon/cyngherddau i gael eu cylchdroi o amgylch ysgolion e.e. mae gan Ysgol Coedmor neuadd chwaraeon fawr ac felly byddai chwaraeon yn cael eu cynnal yno.
- Manylion gweithgareddau ar ôl Ysgol
- Cynnal a chadw'r adeiladau a sut bydd arian a chynhaliaeth yn cael ei rannu yn deg ar draws y 3 safle.

2.6 Dros yr haf fe weithiodd y Prifathro yn galed i gael rhieni ar ei ochr, roedd yn ceisio cyfathrebu negeseuon positif am y ffederasiwn i rieni, yn bennaf drwy'r disgyblion. Roedd yn edrych am gyfleon i ddod â rhieni at ei gilydd a'u galluogi i weld manteision ffederaleiddio. Roedd y disgyblion yn mynd â negeseuon gartref yn rheolaidd ac yn mwynhau cymysgu gyda phlant o'r ysgolion eraill. Dyma enghreifftiau o rai digwyddiadau a drefnwyd gan y Prifathro i ddod â'r rhieni 'on board' ac i'w cael i gymysgu gyda rhieni eraill:

- Diwrnod chwaraeon i'r 3 ysgol
- Clwb nofio ar ôl Ysgol i'r 3 ysgol
- Clwb chwaraeon
- Holiadur i ddisgyblion benderfynu ar wisg Ysgol
- Cystadleuaeth i ddylunio logo Ysgol newydd
- Cyhoeddusrwydd a marchnata'r Ysgol newydd
- Ffair Ysgol ar y cyd
- Clwb gofal ar ôl Ysgol
- Clwb brecwast

2.7 Roedd y Tîm Rheoli yn cynnwys y prifathro, 2 ddirprwy brifathro ac un uwch athro. Mae'r prifathro ac un dirprwy wedi eu lleoli yng Nghoedmor tra mae'r ail ddirprwy wedi ei leoli yn Llanycrwys ac uwch aelod o staff wedi ei leoli yn Ysgol Ffarmers.

2.8 Nodweddion llwyddiannus

- Safonau academaidd wedi cynyddu ym mhob un o'r 4 pwnc craidd.
- Natur wledig yr ysgolion wedi ei gynnal ac yn golygu llawer mwy o gyfleon i ddisgyblion
- Dosbarthiadau wedi parhau i fod yn fach a dim oedran cymysg
- Gwneud defnydd o sgiliau dysgu arbenigol wedi gwneud gwahaniaeth mawr i safon y dysgu
- Adnoddau wedi gwella a mwy o gyfleon ar gyfer profiadau dysgu ychwanegol yn enwedig mewn cerdd a chwaraeon.
- Gweithio mewn tîm ar draws yr ysgolion wedi gwella ac mae staff wedi eu hysgogi drwy allu canolbwyntio ar eu pwnc arbenigol, i gydweithio ac i gyfuno arbenigedd gydag aelodau eraill o staff
- Pellter yn hanfodol i'w ystyried - mae'r ysgolion yn eithaf agos i'w gilydd ac mae hyn yn gweithio yn dda.

2.9 Nodweddion Aflwyddiannus

- I ddechrau roedd y prifathro yn dysgu llawn amser ac roedd hyn yn eithriadol o anodd.
- Byddai rhieni yn y ddwy ysgol leiaf yn hoffi gweld mwy o'r prifathro ond nid yw hyn yn bosib bob amser.
- Cludo plant rhwng safleoedd yn gallu bod yn anodd ar adegau.
- Yn ariannol, mae'r ffederasiwn yn dioddef oherwydd mai dim ond 1 grant mae'r Cynulliad yn ei gynnig er bod 3 safle.
- Estyn ddim ond wedi codi un mater mewn perthynas â'r ffederasiwn sef y diffyg cysondeb mewn Addysg Grefyddol. Mae hyn wedi cael ei sylw yn effeithiol drwy gynllunio ar y cyd a chynyddu arsylwi mewn gwersi Addysg Grefyddol.

3. Achos 3 - Wiltshire

3.1 Penderfynwyd ffurfio ysgol gynradd Wylye Valley drwy uno dwy ysgol gynradd 4 milltir i ffwrdd oddiwrth eu gilydd yn ardal Wiltshire. Roedd ysgol Steeple Langford yn ysgol gymorthedig wirfoddol gyda 31 o ddisgyblion 4-9 oed. Roedd yr ysgol yn cael trafferthion recriwtio pennaeth newydd ers ymddeoliad y prifathro yn 2003. Ysgol wedi ei rheoli yn wirfoddol oedd Codford gyda 98 o ddisgyblion 4 -11 oed.

3.2 Yn ystod Medi 2004, daeth prifathro ysgol Codford yn bennaeth ar y ddwy ysgol a ffurfiwyd un corff llywodraethu. Penderfynwyd cynnal y ddau safle ac i'r ddau safle barhau gyda'r amrediad oedran presennol.

3.3 Mae nifer o fuddiannau wedi deillio o ffederaleiddio'r ysgolion:

- Mae'n bosib i'r ddwy gymuned gadw ysgol
- Bydd yn galluogi penodi athro dosbarth ychwanegol gan arbed cyflog prifathro (er bydd yr arbediad hwn yn cael ei ddefnyddio i gyrraedd costau ychwanegol eraill).
- Bydd gan ddisgyblion o'r ddwy ysgol grŵp cyfoed mwy a bydd mwy o gyfleon all gwricwlaidd
- Bydd gan staff y ddau safle fwy o gydweithwyr i'w cefnogi ac i gynorthwyo gyda chynllunio cwricwlwm.
- Bydd ysgol Steeple Langford yn dod dros y broblem o recriwtio prifathro.

3.4 Fodd bynnag, ni fydd arbedion i'r gyllideb ysgol gan fod yr Awdurdod Lleol wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol i'r ysgol ffederal newydd.

4. Achos 4 - Dwyrain Sir Efrog

4.1 Mae Ffederasiwn Middleton, Beeswich ac Watton wedi eu lleoli yn Nwyrain Sir Efrog ac yn cynnwys 2 ysgol, sef:

- Ysgol Middleton - cyfnod sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 ac 2 a chyfanswm o 60 o blant.
- Ysgol Beeswich ac Watton - Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 ac 2 a chyfanswm o 35 o blant.
- Mae pellter o tua 5 milltir rhwng yr ysgolion.
- Ffurfiwyd y ffederasiwn yn anffurfiol yn 2005
- Un brifathrawes a chorff Llywodraethu sydd yno dros y 2 ysgol
- Mae'r ysgolion yn cael eu cyllido fel 2 ysgol, yn cael eu rhedeg fel ysgolion ar wahân, yn derbyn arolygon OFSTED ar wahân er eu bod yn dod o dan un brifathrawes a chorff llywodraethu.

4.2 Mae'r ffederasiwn yn rhan o rwydwaith o 6 o ysgolion cynradd gwledig. Gelwir y rhwydwaith yn 'The Waggoners'. Mae staff yn cael eu hapwyntio i un ysgol, ond mae'r swydd ddisgrifiad yn nodi fod disgwyl iddynt ddysgu ar draws y ffederasiwn pan fydd angen defnyddio eu harbenigedd.

4.3 Roedd sawl rheswm am y penderfyniad i ffederaleiddio, yn bennaf oherwydd penderfyniad prifathro Ysgol Beswick ac Watton i ymddeol a bod niferoedd disgyblion yn disgyn.

4.4 Penderfynwyd ymgynghori gyda rhieni drwy gynnal arolwg a sesiynau agored ar gyfer y ddwy ysgol. Doedd dim gwrthwynebiad gan rieni, dim ond ymholiadau ynglŷn â chludiant, plant yn symud o safle i safle a rhieni Ysgol Middleton yn poeni am golli prifathro. Roedd y ffaith fod y ddwy ysgol wedi bod yn cydweithio fel rhan o'r rhwydwaith 'Waggoers' ers sawl blwyddyn yn bendant wedi helpu'r broses ac wedi bod o gymorth i leddfu unrhyw bryderon gan rieni. Roedd cyflymder negeseuon gan y brifathrawes o ran hysbysu rhieni o ddatblygiadau a newidiadau cyn iddynt ddigwydd hefyd wedi helpu i gyfrannu at sefydlu ffederasiwn yn gyflym ac yn llwyddiannus.

4.5 Apwyntiwyd Rheolwr busnes i'r ffederasiwn a chynorthwyydd gweinyddol ymhob ysgol i'w gynorthwyo.

4.6 Mae gan y brifathrawes uwch dim rheoli sydd yn cynnwys y brifathrawes ei hun, uwch aelodau o staff (sydd yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt pan fydd y brifathrawes oddi ar y safle) a'r rheolwr busnes. Mae'r brifathrawes wedi ei lleoli yn Beswick a Watton ar fore dydd Llun ar gyfer gwasanaeth ac yn Middleton ar brynhawn dydd Llun. Mae hi hefyd yn dynodi un dydd yr wythnos ar gyfer amser prifathrawiaeth ymhob ysgol ac yn defnyddio'r amser hwn ar gyfer monitro dysgu, gwneud gwaith ymchwil ac amser i adlewyrchu. Mae'r brifathrawes nawr o'r farn fod ganddi lawer mwy o amser i fod yn meddwl ac arwain yn strategol ac mae hyn yn bennaf oherwydd penodiad y Rheolwr Busnes. Mae hefyd wedi dod â chyfleon i arweinwyr canol gan fod cyfle iddyn nhw ddatblygu eu rolau yn fwy effeithiol.

4.7 Llwyddiannau

- Mae niferoedd yn cynyddu ac mae teuluoedd yn symud yn ôl i bentref Beswich oherwydd eu bod yn gwybod fod yr ysgol yn ddiogel ac wedi derbyn arolwg da iawn gan OFSTED.
- Mae Ysgol Middleton gyda derbyniad ar ei uchafswm ers y 2 flynedd diwethaf, mae Beswich a Watton wedi derbyn 10 disgybl eleni yn wahanol i'r 2 neu 3 arferol. Mae cyllidebau'r ddwy ysgol yn iach.

- Yn yr 18 mis ers i'r ysgolion gael eu ffedereiddio mae safonau wedi codi ac mae llawer mwy o hyblygrwydd mewn staffio a defnydd o arbenigedd pwnc.

- Mae staff yn bositif iawn am y ffederasiwn; i nifer roedd yn ffordd o gadw swyddi. Mae'r ffederasiwn hefyd wedi lleihau ynysyniaeth ac wedi cynnig mwy o gyfleon ar gyfer datblygiad personol ac ar gyfer arweinyddiaeth.
- Mae apwyntio rheolwr busnes wedi cael effaith sylweddol ar lwyddiant y cynllun ac yn enwedig yng nghyd-destun rôl y brifathrawes, sydd nawr yn gallu canolbwyntio ar ddatblygiadau strategol yr ysgolion.

4.8 Ffactorau aflwyddiannus

- Prifathrawes yn difaru peidio â chreu pwyllgor ffederasiwn a fyddai'n monitro a symud penderfyniadau yn eu blaen ar ran y Corff Llywodraethu. Yn hytrach, pan oedd angen penderfyniad, roedd rhaid dod â'r Corff Llywodraethu llawn at ei gilydd ac roedd hyn yn atal pethau rhag cael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol.
- Gallai cyfathrebu yn y camau cyntaf fod wedi bod yn well drwy gael strategaethau grymus mewn lle.
- Mae'n parhau i fod yn anodd cael staff i feddwl fel tîm unedig oherwydd mai dim ond canran ohonynt sydd yn gweithio ar draws y ddwy ysgol. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd sydd yn dechrau gwneud gwahaniaeth drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau ayb.
- Mae sefydliadau rhieni yn gallu bod yn broblemus, yn bennaf oherwydd eu bod wedi eu trefnu ar wahân. Mae bwriad i gyfuno'r rhain yn y dyfodol agos.